

# Bwriwch olwg fanylach ar... GOETIROEDD GWLYB

Mae coetiroedd gwlyb yn llaith a llawn dirgelwch. Mae coed gwern, bedw a helyg yn goed cyffredin mewn coetiroedd gwlyb. Gallan nhw dyfu mewn lleoedd lle nad oes ots ganddyn nhw gael traed gwlyb!

Gall tir gwlyb a digonedd o goed gwywedig fod yn gartref i lawer o fywyd gwyllt, e.e. mwsoglau, rhedyn, chwilod a gwyfynod. Gall coetiroedd gwlyb gynnig cysgod hefyd i ddyfrgwn a bod yn safleoedd bwydo i heidiau o adar sy'n gwibio trwy'r coed.

Yn Sir Gaerfyrddin mae'r rhan fwyaf o'r coetiroedd gwlyb i'w gweld yn nyffrynnoedd afonydd, ar gyrion corsydd a chaeau llaith ac mewn pantiau mewn coetiroedd mwy.

- Collwyd llawer o goetiroedd gwlyb Prydain, a hynny'n bennaf oherwydd iddyn nhw gael eu clirio ar gyfer amaethyddiaeth neu eu datblygu. Mae angen inni ofalu am y lleoedd sy'n weddill!
- Mae coed bedw a gwern yn cynnal mwy o fathau o bryfed nag unrhyw goed eraill heblaw derw.
- Ymhen amser gall coetiroedd gwlyb newid yn naturiol yn gynefinoedd llawer sychach wrth i lefel y dŵr newid ac wrth i rywogaethau newydd dyfu.
- Hefyd mae coetiroedd gwlyb yn gynefinoedd da i ystlumod, madfallod dŵr ac adar magu.
- Yng Nghymru roedd y pren o goetiroedd gwern gwlyb yn cael ei ddefnyddio i wneud clocsiâu.



**Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybod  
mwy am fywyd gwyllt rhyfeddol Sir  
Gaerfyrddin**



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

**Cyngor Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council**